**Disgrifiad o'r Swydd**

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Addysg Cyfarwyddiaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol (Y Gronfa Ffyniant Gyffredin) | | |
| **Rhif y Swydd** | BG12318 | **Gradd** | 6 |
| **Lleoliad** | Sefydliad Glynebwy / Ystwyth | **Oriau Gwaith** | 37 awr yr wythnos |
| **Lwfans Defnyddiwr Car** | Hanfodol | **Datgeliad** | Manylach |
| **Cyswllt** | Beth Parsons | **Wedi'i Ddiweddaru** | 2 Ebrill 2025 |

## Ariennir y swydd hon gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (Llywodraeth y DU)

**Prif Ddiben y Swydd**

Yn atebol i: Rheolwr Tîm y Gwasanaeth Ieuenctid – Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Yn gyfrifol am: Bydd y gweithiwr ieuenctid yn darparu cefnogaeth, arweiniad a mentora i bobl ifanc 11-25 oed y nodir eu bod mewn perygl o ddod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) neu sydd yn NEET ar hyn o bryd. Yn dibynnu ar anghenion y bobl ifanc a nodwyd, bydd disgwyl i'r gweithiwr ieuenctid weithio ar sail unigol neu drwy waith grŵp. Bydd y gweithiwr ieuenctid yn gweithio tuag at ganlyniadau'r timau 11-16 neu 16-25 o fewn y prosiect. **Mae'r swyddi hyn wedi'u cysylltu'n benodol â lleoliadau addysgol prif ffrwd ledled Blaenau Gwent. Yn bennaf, bydd deiliaid y swydd yn creu pecynnau cymorth pwrpasol ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed. Mae'r swyddi hyn hefyd yn cynnwys disgwyliad o ddarparu cymorth ehangach yn y gymuned y tu allan i oriau ysgol graidd a gyda'r nos.**

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Darparu mentora unigol, cefnogaeth un i un, gwybodaeth ac arweiniad i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu sydd ar hyn o bryd yn NEET.

2. Cefnogi pobl ifanc unigol i nodi nodau a gwneud dewisiadau gwybodus trwy ddatblygu cynllun personol.

3. Helpu i gynllunio a darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol hyblyg i helpu pobl ifanc i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan lawn yn yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

4. Nodi'r ystod o asiantaethau ac unigolion sy'n ganolog i ddatblygiad y person ifanc, gan gynnwys lle bo'n briodol rhieni a gofalwyr.

5. Cysylltu ag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ym Mlaenau Gwent, a datblygu cysylltiadau cryf â nhw, gan weithio gyda staff addysgu ac asiantaethau atgyfeirio priodol i ddiwallu anghenion y person ifanc.

6. Datblygu cysylltiadau cryf ag ysgolion uwchradd, Gyrfa Cymru a/neu'r Ganolfan Byd Gwaith i helpu i chwalu'r rhwystrau i bobl ifanc rhag cyrchu gwybodaeth berthnasol am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

7. Cefnogi pobl ifanc i nodi rhwystrau personol rhag cyrchu cyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant a chwilio am ffyrdd o oresgyn y rhwystrau hyn. Gallai hyn gynnwys ymyrraeth uniongyrchol, datblygu mecanweithiau cymorth, neu, pan fo angen, atgyfeirio pobl ifanc am gymorth arbenigol.

8. Gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu a Fforwm Ymarferwyr NEET, gan sicrhau cyfathrebu priodol yn ôl yr angen.

9. Monitro cynnydd y person ifanc yn unol â'r cynllun personol y cytunwyd arno a darparu diweddariadau rheolaidd cytûn i'r panel amlasiantaeth pan fo'n briodol.

10. Bodloni'r holl ofynion a nodir gan Lywodraeth y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys dyletswyddau gweinyddol, monitro a gwerthuso.

11. Cefnogi pobl ifanc i fanteisio ar y cyfleoedd ehangach sydd ar gael trwy brosiectau eraill y Gwasanaeth Ieuenctid.

12. Gweithio fel rhan o dîm.

13. Cefnogi a datblygu darpariaeth gyda'r nos a chymunedol o fewn Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent.

14. Herio gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal.

15. Cynnal a datblygu sgiliau trwy hyfforddiant priodol yn ôl yr angen.

16. Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth amddiffyn plant a gweithredu o fewn y canllawiau a osodwyd.

17. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen y bernir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y swydd ac yn unol â chyfarwyddyd eich rheolwr llinell.

18. Cydymffurfio â’r adrannau perthnasol o ddatganiad polisi’r awdurdod ar iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

19. Cadw at egwyddorion y Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

# Y Person – Heb Fod yn Rheolwr

Commented [HR1]: Spelling mistake in logo: should be "Bwrdeistref"

## 1. Cymwysterau a phrofiad

| Cymwysterau / profiad perthnasol | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu: Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (nodwch) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith ieuenctid a'r gallu i gofrestru fel 'gweithiwr ieuenctid' gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (Cymru) | Hanfodol | ✓ | | | |
| TGAU gradd C neu uwch mewn Saesneg a Mathemateg | Dymunol | ✓ | | | |
| **Profiad arall** | | | | | |
| Profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc mewn perygl, gan gynnwys darparu mentora a chefnogaeth | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Profiad o waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Profiad o waith monitro a gwerthuso | Dymunol | ✓ | ✓ | | |
| Profiad o weithio gydag ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant, ysgolion a cholegau, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, a darparwyr gwasanaethau ieuenctid | Dymunol | ✓ | ✓ | | |
| **Gwybodaeth/Sgiliau** | | | | | |
| Sgiliau rhyngbersonol/cyfathrebu rhagorol gyda'r gallu i uniaethu â phobl ifanc ac ennyn eu brwdfrydedd | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm amlasiantaeth | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Y gallu i asesu anghenion pobl ifanc a datblygu cynlluniau gweithredu priodol | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Lefel uchel o gadernid personol, gan gynnwys y gallu i reoli gwrthdaro a delio â sefyllfaoedd llawn straen | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Gwybodaeth am wasanaethau lleol sy'n darparu cymorth a darpariaeth i bobl ifanc a theuluoedd | Dymunol | ✓ | ✓ | | |
| Dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol cyfredol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Gwybodaeth ymarferol ardderchog am weithdrefnau amddiffyn plant, cydraddoldeb, a rhannu gwybodaeth | Dymunol | ✓ | ✓ | | |
| Gwybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol mewn perthynas â'r agenda NEET | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |

| 2. Gofynion Arbennig | Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (nodwch) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Gallu yn y Gymraeg | Dymunol | ✓ | ✓ | | |
| Trwydded yrru lawn a defnydd o gar at ddibenion gwaith | Hanfodol | ✓ | | | |
| Wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (Cymru) fel gweithiwr ieuenctid | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Bod ar gael i weithio oriau gwaith y cytunwyd arnynt, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |

| **3. Cymwyseddau Personol**<br>Ystyrir bod pob cymhwysedd yn hanfodol, er y cydnabyddir y gellir cyflawni rhai dros gyfnod o amser. Disgwylir i'r holl weithwyr ddatblygu eu cymwyseddau yn barhaus yn unol â'r fframwaith priodol. Yn ychwanegol at y rhai a asesir fel rhan o'r broses recriwtio, caiff cymwyseddau eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedi hynny drwy gynllun hyffordditi perfformiad yr awdurdod. | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Cyflenwi'r Gwasanaeth** | Yn cynllunio ac yn trefnu gwaith ymlaen llaw | | ✓ | | ✓ |
| | Yn cynnwys rheolwr llinell / cydweithwyr wrth osod a chyrraedd targedau | | | | ✓ |
| | Yn ad-drefnu gwaith pan fo angen | | ✓ | | ✓ |
| | Yn sicrhau bod tasgau'n cael eu cwblhau pryd bynnag y bo hynny'n bosibl | | ✓ | | ✓ |
| | Yn ceisio cymorth os yw'r llwyth gwaith yn mynd yn anhylaw | | ✓ | | ✓ |
| | Yn defnyddio menter bersonol i adrodd am faterion sy'n codi sy'n effeithio ar eraill | | | | ✓ |

| | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Gwella a Newid** | Yn barod i roi cynnig ar bethau newydd a bwydo canlyniadau yn ôl | | ✓ | | ✓ |
| | Yn deall bod angen newidiadau er mwyn gwella pethau | | ✓ | | ✓ |
| | Yn dod o hyd i ffyrdd newydd a chreadigol o wneud pethau'n well | | ✓ | | ✓ |
| | Yn mynd ati i geisio datblygu sgiliau a gwybodaeth bersonol | | ✓ | | ✓ |
| | Yn dysgu yn sgil camgymeriadau ac yn croesawu adborth adeiladol | | ✓ | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Darparu Gwasanaeth Rhagorol i Gwsmeriaid** | Yn cydnabod pwysigrwydd safonau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid | | ✓ | | ✓ |
| | Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i holl ddinasyddion Blaenau Gwent | | ✓ | | ✓ |
| | Yn deall y cysylltiadau rhwng ei broffesiynoldeb ei hun a'r effaith bosibl ar enw da'r awdurdod | | | | ✓ |
| | Yn meddu ar agwedd broffesiynol sy'n gosod esiampl i gydweithwyr | | | | ✓ |
| | Yn ymfalchïo yn ei waith ei hun a gwaith cydweithwyr | | | | ✓ |
| | Yn barchus, yn gwrtais ac yn barod ei gymwynas bob amser | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Gweithio mewn Tîm** | Yn ymateb yn adeiladol i awgrymiadau a cheisiadau pobl eraill | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | Yn cydnabod gwerth posibl barn pobl eraill ac yn mynd ati i geisio eu cyfraniadau | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | Yn gofyn am gymorth pan fo angen | | | | ✓ |
| | Yn mynd ati i helpu eraill | | | | ✓ |
| | Yn ymwybodol o effaith ei ymddygiad ei hun ar eraill | ✓ | ✓ | | ✓ |

| | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Cyfathrebu** | Yn addasu cynnwys ac arddull i helpu eraill i ddeall | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | Yn sicrhau bod pobl yn cael eu hysbysu'n rheolaidd | | | | ✓ |
| | Yn defnyddio iaith, ystumiau a thôn briodol wrth siarad â phobl eraill | | ✓ | | ✓ |
| | Yn gwirio bod eraill wedi deall ac yn ceisio cyngor pan fo angen | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | Yn mynd ati i geisio gwella pob math o gyfathrebu ag eraill | | | | ✓ |
| | Yn cyfathrebu'n broffesiynol trwy ddefnyddio sianeli ffurfiol sy'n briodol i'r sefyllfa | | | | ✓ |